INSMAR019

Datblygu strategaethau a chynlluniau ar gyfer ymgyrchoedd a gweithgareddau marchnata

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â datblygu strategaethau a chynlluniau ar gyfer ymgyrchoedd a gweithgareddau marchnata. Rydych yn gwerthuso tueddiadau cwsmeriaid a phatrymau ymddygiad. Rydych yn gosod amcanion a chyllidebau sy'n cyd-fynd â strategaethau marchnata cyffredinol y sefydliad. Rydych yn cynllunio ac yn diffinio cyllideb realistig ac yn nodi adnoddau i gyflwyno ymgyrchoedd a gweithgareddau marchnata. Rydych hefyd yn paratoi strategaethau a chynlluniau i gyflawni'r amcanion a chytuno ar y rhain gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae'r safon ar gyfer gweithwyr marchnata proffesiynol sy'n datblygu strategaethau a chynlluniau ar gyfer ymgyrchoedd a gweithgareddau marchnata.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. osod amcanion sy'n cyd-fynd â strategaethau a chynlluniau marchnata'r sefydliad
2. nodi'r segmentau o gwsmeriaid neu gynulleidfaoedd y mae'r ymgyrchoedd a'r gweithgareddau wedi'u hanelu atynt
3. diffinio dulliau mesur perfformiad allweddol ar gyfer ymgyrchoedd a gweithgareddau marchnata
4. gwerthuso tueddiadau a phatrymau ymddygiad y cwsmeriaid neu'r gynulleidfa a dargedir a'u goblygiadau i'r ymgyrchoedd a'r gweithgareddau
5. diffinio cyllidebau realistig ar gyfer ymgyrchoedd a gweithgareddau
6. nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r ymgyrchoedd a'r gweithgareddau
7. asesu cryfderau a gwendidau gwahanol ddulliau o gyflawni amcanion, gan ystyried yr enillion posibl ar fuddsoddiad
8. rhagweld galwadau am gynhyrchion neu wasanaethau
9. datblygu cynlluniau wrth gefn i ddelio ag amrywiadau o'r rhagolygon
10. gofyn am gyngor ac arweiniad ar eich rhagolygon gan ffynonellau arbenigedd mewnol ac allanol
11. paratoi strategaethau a chynlluniau i gyflawni amcanion, wedi'u halinio â'r marchnadoedd a dargedir
12. amlinellu dulliau monitro canlyniadau ac adrodd arnynt yn erbyn yr amcanion
13. ymgynghori â rhanddeiliaid ar y strategaethau a'r cynlluniau
14. diwygio'r strategaethau a'r cynlluniau yn unol ag adborth
15. cytuno ar y strategaethau a'r cynlluniau gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau
16. dilyn y gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol presennol, codau ymarfer a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol sy'n ymwneud â datblygu strategaethau a chynlluniau marchnata

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. sylfaen cwsmeriaid wirioneddol a phosibl y sefydliad, a'u hanghenion a'u disgwyliadau
2. sut i ddatblygu amcanion yn unol â strategaeth a chynllun marchnata cyffredinol y sefydliad
3. y dulliau mesur perfformiad allweddol ar gyfer ymgyrchoedd a gweithgareddau marchnata
4. sut gall tueddiadau cwsmeriaid a phatrymau ymddygiad effeithio ar ymgyrchoedd a gweithgareddau
5. sut i nodi segmentau o gwsmeriaid neu gynulleidfaoedd ar gyfer cynhyrchion neu wasanaethau'r sefydliad
6. sut i asesu cryfderau a gwendidau'r gwahanol ddulliau o gyflawni'r amcanion, gan ystyried yr enillion posibl ar fuddsoddiad (ROI)
7. y gwahanol ddulliau o ragweld y galw am gynhyrchion neu wasanaethau
8. sut i ddatblygu cynlluniau wrth gefn i fynd i'r afael ag amrywiannau o ragolygon
9. y ffynonellau arbenigedd mewnol ac allanol sy'n gallu rhoi cyngor ac arweiniad a sut i gael gafael arnynt
10. pwysigrwydd monitro canlyniadau ac adrodd arnynt gan ddilyn canllawiau sefydliadol
11. y ffyrdd o ymgynghori â rhanddeiliaid a manteision pob dull
12. sut i ddatblygu dulliau mesur perfformiad allweddol a threfniadau monitro ac adrodd
13. pwysigrwydd ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch eich strategaethau a'ch cynlluniau
14. sut i ddiwygio strategaethau a chynlluniau yn unol â'r adborth a dderbyniwyd
15. y gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol presennol, codau ymarfer a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol sy'n ymwneud â marchnata

INSMAR019

Datblygu strategaethau a chynlluniau ar gyfer ymgyrchoedd a gweithgareddau marchnata

Datblygwyd gan	Instructus
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Chwefror 2021
Indicative Review Date	Mawrth 2026
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	CFAMAR23
Galwedigaethau perthnasol	Marchnata a Gwerthiant; Rheolwr Marchnata a Gwerthu; Cydymaith Marchnata; Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Marchnata; Swyddog Marchnata
Cyfres/Set	Marchnata
Geiriau Allweddol	Marchnata, gwerthu, rheoli marchnata, ymchwil i'r farchnad, hysbysebu, cysylltiadau cyhoeddus